

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Llacio'r Gofynion Adrodd mewn Ysgolion (Cymru) (Coronafeirws) 2022

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Llacio'r Gofynion Adrodd mewn Ysgolion (Cymru) (Coronafeirws) 2022.

Jeremy Miles AS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

25 Chwefror 2022

Disgrifiad

1. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rhai o ofynion adrodd presennol ysgolion mewn ymateb i effaith y coronafeirws ar ysgolion.

Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2. Dim.

Y cefndir deddfwriaethol

3. Y pwerau cyfreithiol dros wneud y Rheoliadau arfaethedig yw adrannau 537 a 569(4) o Ddeddf Addysg 1996 ac adrannau 30(1) a 210(7) o Ddeddf Addysg 2002. Rhoddwyd y swyddogaethau uchod sydd yn Neddf Addysg 1996 i'r Ysgrifennydd Gwladol ac fe'u trosglwyddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999. Rhoddwyd y swyddogaethau uchod sydd yn Neddf Addysg 2002 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r holl swyddogaethau uchod yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
4. Mae'r adrannau hyn yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â darparu gwybodaeth gan ysgolion a gynhelir.
5. Gwneir y Rheoliadau o dan y weithdrefn negyddol.

Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

6. Ar adeg pan ydym yn parhau i gefnogi ein hysgolion i ymateb i bandemig y coronafeirws a'i oblygiadau, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod ei bod yn bosibl na fydd ysgolion, awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu yn gallu cydymffurfio â rhai gofynion adrodd statudol. Gallant hefyd osod baich gweinyddol anghymesur ar y sawl sy'n gyfrifol.
7. Mae Rheoliadau Llacio'r Gofynion Adrodd mewn Ysgolion (Cymru) (Coronafeirws) 2022 yn dod â'r newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol i rym sydd:
 - Yn diwygio **Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011**.
 - Yn diwygio **Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011**.

Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011 ("y Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol")

8. Mae'r Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol yn amlinellu'r wybodaeth y mae'n rhaid i gyrff llywodraethu ysgolion ei chyhoeddi mewn adroddiad blynyddol, sy'n cynnwys gwybodaeth am lefelau presenoldeb a pherfformiad yr ysgol. Byddai'n amhriodol i adroddiadau gynnwys data mewn cysylltiad â blwyddyn ysgol 2021/22 am berfformiad a phresenoldeb, gan na fydd modd eu cymharu â blynyddoedd blaenorol. Felly, mae Rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol i addasu cynnwys adroddiadau a lunnir mewn perthynas â blwyddyn academaidd 2021/22, fel na fydd gwybodaeth am ddata ar berfformiad a phresenoldeb yn cael ei chynnwys mewn unrhyw adroddiad gan lywodraethwyr ysgolion. **Bydd dyletswydd statudol ar gyrff llywodraethu i lunio adroddiad yn parhau.**
9. Gwybodaeth i'w heithrio mewn perthynas ag adroddiad llywodraethwyr ysgol ar gyfer blwyddyn ysgol 2021/22:
- y Crynodeb o Berfformiad Ysgol Uwchradd mwyaf diweddar; a
 - nifer yr absenoldebau awdurdodedig ac anawdurdodedig yn y flwyddyn ysgol.

Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011 ("y Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion")

10. Mae'r Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion yn nodi'r wybodaeth sydd angen i ysgolion ei chynnwys mewn brospectws. Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion i ddatgymhwysu'r rhwymedigaeth ar gorff llywodraethu ysgol i gynnwys data mewn unrhyw brospectws ysgol ar absenoldeb awdurdodedig ac anawdurdodedig mewn perthynas â blwyddyn ysgol 2021/22.

Ymgynghori

11. Ar 19 Ionawr 2022, anfonwyd llythyr at ystod o randdeiliaid allweddol, yn eu gwahodd i rannu eu barn am Rheoliadau Lacio'r Gofynion Adrodd mewn Ysgolion (Cymru) (Coronafeirws) 2022 erbyn 11 Chwefror 2022. Roedd y rhanddeiliaid hyn yn cynnwys awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, ysgolion, undebau athrawon a'r rheini a ymatebodd i ymgynghoriadau a gynhaliwyd ar lacio'r gofynion adrodd mewn ysgolion ar gyfer blynyddoedd ysgol 2019/20 a 2020/21.
12. Gan na ddaeth unrhyw ymatebion i law, nid ystyriwyd bod angen gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r Rheoliadau drafft.

Asesiad Effaith Rheoleiddiol

13. Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.
14. Oherwydd y costau a'r manteision tebygol o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn, nid ystyrir ei bod yn angenrheidiol cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae angen rhoi Rheoliadau Llacio'r Gofynion Adrodd mewn Ysgolion (Cymru) (Coronafeirws) 2022 ar waith er mwyn cael gwared â gofynion amhriodol neu feichiau ychwanegol ar ysgolion, awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu mewn ymateb i bandemig y coronafeirws.